



*Mae'r cofnodion hyn yn amodol ar gymeradwyaeth yng nghyfarfod priodol nesaf y Pwyllgor.*

**Pwyllgor Materion Trwyddedu CYNGOR RHONDDA CYNON TAF**

Cofnodion o gyfarfod o'r Pwyllgor Materion Trwyddedu a gafodd ei gynnal brynhawn Mawrth, 6 Mawrth 2018 am 5.00 yn Siambr y Cyngor, Y Pafiliynau, Parc Hen Lofa'r Cambrian. Cwm Clydach, Tonypanydy CF40 2XX.

**Y Cyngorwyr Bwrdeistref Sirol - Aelodau o'r Pwyllgor Materion Trwyddedu a oedd yn bresennol:-**

Y Cynghorydd A Fox (Cadeirydd)

Y Cyng. D Williams  
Y Cyng. A Cox

Y Cyng. S Powderhill  
Y Cyng. L Jones

Y Cyng. E Webster  
Y Cyng. P Howe

Y Cyng. S Morgans

**Swyddogion oedd yn bresennol**

Ms L Davies, Pennaeth Materion Iechyd yr Amgylchedd, Safonau Masnach, a Chymunedau Diogel  
Mr G Black, Rheolwr Cymunedau Diogel a Thrwyddedu

Mr P. Nicholls – Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol – Gwasanaethau Ymglyfreitha, Cynllunio a'r  
Amgylchedd, Cymuned a Phlant

Mr A Morgan, Swyddog Gorfodi, Materion Trwyddedu

**63 CROESO**

Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd P. Howe i'w gyfarfod cyntaf o'r Pwyllgor, gan gyflwyno pawb.

Cafodd clercod newydd y Pwyllgor, H. Williams ac E. Wilkins, hefyd eu croesawu i'w cyfarfod cyntaf. Manteisiodd y Cadeirydd ar y cyfle i estyn diolch ar ran y Pwyllgor i'r clerc blaenorol, J. Nicholls a oedd wedi bod yn hynod wybodus a chefnogol i Aelodau dros y blynyddoedd blaenorol.

**64 YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB**

Daeth ymddiheuriad am absenoldeb gan y Cyngorwyr S. Bradwick, W. Lewis a T. Williams.

**65 DATGAN BUDDIANT**

Yn unol â Chôd Ymddygiad y Cyngor, doedd dim datganiadau o fuddiant ynglŷn â'r agenda.

**66 DEDDF HAWLIAU DYNOL A'R DDEDDF TROSEDD AC ANHREFN**

**PENDERFYNWYD** – nodi pan fydd Aelodau'n ystyried y materion trwyddedu a chofrestru sydd ger eu bron, mae dyletswydd arnyn nhw i beidio â gweithredu mewn modd sy'n anghydnaws â'r confensiwn ar Hawliau Dynol a'r Ddeddf

Trosedd ac Anhrefn.

**67 COFNODION**

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo cofnodion o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 23 Ionawr, 2018 yn rhai cywir.

**68 TRAFOD Y TRWYDDEDAU A'R COFRESTRYADAU A GAFODD EU RHOI O DAN DDARPARIAETH PWERAU WEDI'U DIRPRWYO AR GYFER Y CYFNOD 08.01.18 - 18.02.18**

Cyflwynodd Pennaeth Materion Iechyd yr Amgylchedd, Safonau Masnach, a Chymunedau Diogel fanylion ynglŷn â thrwyddedau a chofrestriadau a gafodd eu rhoi yn ystod rhwng 8 Ionawr, 2018 a 18 Chwefror, 2018.

Gofynnodd y Cynghorydd Powderhill a oedd swyddogion yn gwybod am unrhyw geisiadau cynllunio mewn perthynas â thrwydded lletya anifeiliaid gan ofyn a oedd unrhyw wrthdaro rhwng y naill beth a'r llall. Dywedodd Pennaeth Materion Iechyd yr Amgylchedd, Safonau Masnach, a Chymunedau Diogel nad oedd ceisiadau cynllunio am drwydded eiddo lletya anifeiliaid yn ystyriaeth berthnasol yn ôl deddfwriaeth wrth gymeradwyo trwydded fangre, ac yn dilyn trafodaeth **PENDERFYNWYD** nodi cynnwys yr adroddiad.

**69 TRAFOD CADARNHAU'R CYNNIG ISOD YN BENDERFYNIAD:-**

**PENDERFYNWYD** Bod y cyfarfod hwn yn cadw aelodau o'r wasg ac aelodau o'r cyhoedd allan o ystafell y cyfarfod, dan Adran 100A(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 (fel y'i diwygiwyd), yn ystod trafod yr agendwm nesaf, ar y sail y byddai'n debygol o olygu datgelu gwybodaeth eithriedig yn ôl diffiniad paragraff 13 o Ran 4 o Atodlen 12A o'r Ddeddf.

**70 CRYNODEB GORFODI (GAN GYNNWYS DATA APELIADAU/ERLYNIADAU) AR GYFER Y CYFNOD 10.01.18 - 23.2.18**

Rhoddodd Pennaeth Materion Iechyd yr Amgylchedd, Safonau Masnach, a Chymunedau Diogel adroddiad i aelodau ynglŷn â'r gwaith gorfodi diweddar, gan gynnwys gwybodaeth am unrhyw achosion erlyn ac apelio ar gyfer y cyfnod 10 Ionawr, 2018 hyd at 23 Chwefror, 2018.

Ar ôl trafod yr adroddiad, **PENDERFYNWYD** nodi'r cynnwys, a oedd wedi ei gyflwyno at ddibenion gwybodaeth yn unig.

**71 CRYNODEB O'R TRWYDDEDAU A GYHOEDDWDYD O DAN DDARPARIAETH AWDURDOD DIRPRWYEDIG AR GYFER Y CYFNOD 08.01.18 - 18.02.18**

Cyflwynodd Pennaeth Materion Iechyd yr Amgylchedd, Safonau Masnach, a Chymunedau Diogel adroddiad i Aelodau ynghylch y trwyddedau a/neu'r cofrestriadau a gafodd eu rhoi o dan ddarpariaethau Awdurdod Dirprwyedig ar gyfer y cyfnod 8 Ionawr, 2018 hyd at 18 Chwefror, 2018.

**PENDERFYNWYD** nodi cynnwys yr adroddiad.

**72 TRAFOD YR APELIADAU CANLYNOL YN ERBYN GWRTHOD CANIATÁU  
EU DEFNYDDIO FEL PERSONÉL CLUDIANT DAN GONTRACT:**

Yn ei adroddiad, nododd Cyfarwyddwr Gwasanaeth – y Priffyrdd fanylion ynglŷn â'r cais am gliriad ar gyfer personél Cludiant dan Gontract ar gludiant ysgolion, gwasanaethau cymuned a chontractau cysylltiedig ar gyfer cludiant.

Yn unol â'r gweithdrefnau wedi eu mabwysiadu, cafodd Mr SR, o'r Pentre, ei groesawu gan yr Aelodau o'r Pwyllgor yr oedd gofyn i'w gais am gliriad ar gyfer Personél Cludiant dan Gontract gael ei drafod gan y Pwyllgor.

Yn dilyn trafod yr adroddiad **PENDERFYNODD** y Pwyllgor wrthod y cais i'w ddefnyddio fel Personél Cludiant dan gontract.

**73 PRAWF GWYBODAETH - Y DIWEDDARAF**

Trwy gyflwyniad Powerpoint, rhoddodd y Rheolwr Materion Cymunedau Diogel a Thwyddedu wybodaeth i'r Aelodau am y Prawf Gwybodaeth Gyrwyr Cerbydau Hacni (tacsis) a Cherbydau Llogi Preifat sydd wedi bod mewn grym ers Medi 2017 ar gyfer ymgeiswyr newydd. Rhoddodd wybod i Aelodau am effaith y prawf ar gymeradwyo ceisiadau am drwydded tua'r dyfodol.

Cafodd aelodau y cyfle i roi cynnig ar y Prawf Gwybodaeth, a **PHENDERFYNWYD** nodi'r wybodaeth ddiweddaraf.

**Daeth y cyfarfod i ben am 6.10pm**

**Y Cyngorydd A Fox  
Cadeirydd**